| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad** | 13 Ionawr, 2022 |
| **Teitl** | Glendid Stryd |
| **Aelod Cabinet** | Y Cynghorydd Catrin Wager |
| **Awdur** | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| **Pwrpas** | Sicrhau Cymunedau Glân a Thaclus |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae gan amgylchedd lleol o ansawdd gwael effeithiau pellgyrhaeddol a negyddol. Mae'n effeithio ar les, yn atal pobl rhag defnyddio mannau gwyrddion ac mae hyd yn oed yn gysylltiedig â chyfraddau uwch o achosion o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan hefyd effeithio ag amharu ar yr economi a thwristiaeth.

1.2 Mae effeithiau'r argyfwng wedi amharu a newid ein gwaith gyda phwysau cynyddol ar ein hadnoddau yn ystod cyfnodau o'r blynyddoedd diwethaf.

1.3 Dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, mae gan y Cyngor dyletswydd statudol i sicrhau nad oes sbwriel ar briffyrdd a mannau cyhoeddus eraill. Rydym yn darparu ystod lawn o wasanaethau sy'n helpu i sicrhau bod ein strydoedd a lleoliadau agored cyhoeddus yn lan.

1.4 Mae glanhau strydoedd yn rhywbeth sy'n digwydd drwy'r flwyddyn ac mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- clirio mân ysbwriel
- cael gwared ag anifeiliaid marw
- glanhau olion baw cŵn
- clirio unrhyw beth sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon
- gwagio biniau sbwriel a baw cŵn
- clirio unrhyw beth arall sydd wedi'i ollwng
- glanhau manau cyhoeddus
- ysgubo ffyrdd a phalmentydd.

1.5 Mae'r gwasanaeth yn ymdrin â phob un o'n safleoedd cyhoeddus a'r ffyrdd mabwysiedig a reolir gan y Cyngor. Mae ardaloedd wedi eu rhannu yn barthau yn ôl eu defnydd. Parthau dwysedd defnydd Uchel yw canol trefi yn bennaf, parthau dwysedd defnydd Canolig yw'r ardaloedd preswyl yn bennaf, tra bod parthau dwysedd defnydd Isel yn ardaloedd llai dwys sy'n cynnwys ffyrdd Sirol gwledig.

1.6 Mae sbwriel yn hel yn y gwahanol barthau dros amrywiol gyfnodau amser. Mae glendid ardal yn cael ei asesu trwy gymharu gyda safon. Y safonau yw:

- Gradd A - dim sbwriel na gwastraff
- Gradd B - ar y cyfan yn rhydd o sbwriel a gwastraff ac eithrio rhai eitemau bach
- Gradd B+ - dim mwy na tri eitem fach o sbwriel
- Gradd C - dosbarthiad eang o sbwriel a/neu wastraff gyda chroniadau bach
- Gradd D - llawer iawn o sbwriel a/neu wastraff gyda chroniadau sylweddol.

1.7 Caniateir amser gwahanol i lanhau'r ardaloedd a'u dychwelyd i'r safon briodol. Y syniad yn y côd yw pa mor lân yw ardal ac nid pa mor aml y caiff ei lanhau.

1.8 Mae'r safonau glendid yn cael eu monitro yn rheolaidd trwy samplo strydoedd ar hap a hyn ar draws y Sir.

1.9 Mae archwiliad annibynnol yn cael ei gario allan ar y safon gan Cadw Cymru'n Daclus a hyn yn digwydd unwaith y flwyddyn ar hyn o bryd. Gwneir hyn drwy fethodoleg (LEAMS).

1.10 Trefnir bod y prif ffyrdd yn cael eu hysgubo â pheiriannau’n rheolaidd, lle bo hynny’n bosibl. Caiff ardaloedd a lefel uchel o amwynder, megis canol y dref a chanolfannau siopa lleol, eu glanhau’n ddyddiol. Caiff ardaloedd eraill o dir eu monitro a’u glanhau i fodloni’r safonau a nodir yn Neddf Diogelu’r Amgylchedd 1990 a’r Cod Ymarfer ar gyfer sbwriel a gwastraff.

## 2. Cefndir a’r Sefyllfa Bresennol

2.1 Mae ein cylchdeithiau cylchol o lanhau angen eu diweddaru er ymateb i'r pwysau ychwanegol yn sgil cynnydd yn nhwristiaeth ond hefyd drefniadau gwahanol o gasglu gwastraff.

2.2 Yr ydym hefyd yn awyddus sicrhau bod biniau addas wedi eu lleoli ar draws y Sir ar gyfer hybu ailgylchu mân ysbwriel a rhoi cyfleon priodol i drigolion ac ymwelwyr gymryd rhan - mae gan bawb gyfrifoldeb i waredu eu sbwriel yn gyfrifol.

2.3 Yr ydym a blaenoriaeth fel Adran o sicrhau Cymunedau Glan a Thaclus ac yn cyflwyno timau penodol ar gyfer taclo problemau sydd yn cyfrannu at wella edrychiad ein stryd ac ein hamgylchedd - bydd angen sicrhau bod gwaith y timau yma yn cyd-redeg gyda gwaith y tîm glanhau cylchol.

## 3. Camau Nesaf

3.1 Nid oes unrhyw un yn hoffi gweld sbwriel ar hyd y strydoedd, ond yn anffodus, mae rhai pobl yn dal i niweidio ein hamgylchedd trwy beidio gwaredu eu gwastraff yn gyfrifol.

3.2 Drwy atgoffa pobl o’r opsiwn gorau, a gwneud yr opsiwn hwnnw mor hawdd â phosibl, gallwn newid ymddygiad er mwyn cyflawni buddion amgylcheddol yn y tymor hir.

3.3 Mae addysgu ein plant yn hanfodol a chodi ymwybyddiaeth o effeithiau ysbwriel.

3.4 Mae gwirfoddolwyr yn bwysig iawn ac eisoes gweler ymgyrchoedd ar draws y Sir er codi mân ysbwriel a threfnu digwyddiadau o glirio eitemau wedi eu gwaredu yn anghyfreithlon.

3.5 Mae Llywodraeth Cymru hefyd ar fin rhyddhau Cynllun Sbwriel a Thipio ac yn gweithio ar gyflwyno Côd Ymarfer o'r newydd sy'n debygol iawn o roi llawer mwy o bwyslais ar safonau glendid.

3.6 Ein gweledigaeth felly yw dod a hyn ynghyd gan:

- Adolygu yn gyntaf ein trefniadau gwaith glanhau cylchol gan sicrhau eu bod yn ymateb ar gofyn gan ail-edrych ar ein hadnoddau er cyflawni'r gwaith hwn
- Cydlynu gwaith gan wirfoddolwyr pan yn cario allan gwaith codi mân ysbwriel
- Gweithio ar draws sectorau er cynnal ymgyrchoedd
- Mynd i'r afael a sbwriel ar ymylon ffyrdd gwledig
- Cyflwyno biniau ailgylchu ar y stryd er uchafu ar ailgylchu'r deunyddiau
- Manteisio ar ddatblygiadau technoleg gwybodaeth e.e. biniau clyfar
- Addasu fel bydd cod ymarfer o'r newydd yn cael ei gyhoeddi.